

THEATR CYMRU

# BYTH BYTHOEDD AMEN

gan / by

**Mared Jarman**


“Pan mae’r nos
yn effro fel hyn,
gall unrhyw beth
ddigwydd…”

## Pop glas, Jäger bombs a sgrolio Tinder.

## Gweiddi chwil a karaoke yw curiad y ddinas.

## Strydoedd yn llawn *“livin’ for the weekend”…*

Mae Lottie ar noson allan sy’n wahanol i bob noson allan gynt. Wrth i’r noson hwyrhau a Lottie’n ymgolli yn ei hatgofion, mae’r ffin rhwng realaeth a dychymyg yn chwalu ac mae’n cychwyn ar daith o faddeuant, hunan-ddarganfod a dawnsio fel bod neb yn edrych!

Yn ddinesig, yn ddoniol ac yn dywyll, dyma ddrama newydd gan **Mared Jarman** am gariad, colled a bywyd fel pobl ifanc anabl mewn byd sy’n blaenoriaethu’r brif ffrwd.

Bydd Mared – sy’n llais newydd a chyffrous i fyd y theatr Gymraeg – hefyd yn ymddangos fel Lottie, ochr yn ochr â’i chyd-actor **Paul Davies**, dan gyfarwyddyd **Rhian Blythe**.

Gyda chefnogaeth gan **Craidd**.

## Blue pop, Jäger bombs and scrolling Tinder.

## A city pulsing with drunken yelling and karaoke.

## Streets filled with “livin’ for the weekend”…

Lottie’s on a night out like no other. As the hours pass and Lottie loses herself in her memories, the line between reality and imagination crumbles and she embarks on a journey of forgiveness, self-discovery and dancing like nobody’s watching!

Urban and darkly comic, this new play by **Mared Jarman** explores love, loss and life as young disabled people in a world that prioritises the mainstream.

An exciting new voice in Welsh-language theatre, Mared will also appear as Lottie, alongside co-star **Paul Davies** and directed by **Rhian Blythe**.

Supported by **Craidd**.

Canllaw Oed: **16+**

Yn cynnwys iaith gref a themâu aeddfed.

Bydd capsiynau a sain ddisgrifiad ar gael ym mhob perfformiad, a theithiau cyffwrdd dan ofal ein Sain Ddisgrifiwr, Eilir Gwyn, cyn pob sioe am 18:30. Cysylltwch â'r ganolfan berthnasol i gadw lle ar daith gyffwrdd.

Age Guidance: **16+**

Contains strong language and adult themes.

Bilingual captions and Welsh-language audio decription will be available at every performance. Touch tours, led by our Audio Describer Eilir Gwyn, will be available before each show at 18:30. Please contact your venue to book a place on the touch tour.

## Y daith
## The tour

OC AD TT

**25 - 31 Ionawr / January**
Theatr y Sherman, Caerdydd
Sherman Theatre, Cardiff

**3 Chwefror / February**
Ffwrnes, Llanelli

**5 Chwefror / February**
Y Stiwt, Rhosllanerchrugog

**8 Chwefror / February**
Pontio, Bangor

**11 Chwefror / February**
Galeri, Caernarfon

**13 Chwefror / February**
Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron



# Gair gan A Word from Mared Jarman

## Dechreuodd taith *Byth Bythoedd Amen* yn 2020.

Roedd y cyfnod clo wedi effeithio'n ofnadwy ar y gymuned anabl, gyda'r pandemig yn gwaethygu'r rhwystrau oedd yn bodoli'n barod a nifer fawr iawn o bobl anabl yn marw.

Ond mewn ffordd, roedd hi hefyd yn rhyddhad i bobl anabl. O'r diwedd, roedd pawb yn profi'r cyfyngiadau a'r rhwystrau sy'n effeithio ar y gymuned anabl bob dydd.

Ro'n i ar dân eisiau ymateb i'r cyfnod yma ac – fel tipyn o bobl – wnes i droi at ysgrifennu. Fel actor anabl, doeddwn i byth yn cael cyfle i chwarae cymeriadau a rhannu straeon oedd yn debyg i fy mhrofiadau i. Ro'n i eisiau cymeriad o'n i'n teimlo'n angerddol drosti, cymeriad lle doedd dim angen i fi masgio fy nam golwg, rhywun o'dd yn profi bywyd fel fi!

A dyna dwi 'di ceisio gwneud gyda *Byth Bythoedd Amen*. Mae'n ddrama am lot o bethau – cariad, cyfeillgarwch, galar, abledddiaeth

## The journey of *Byth Bythoedd Amen* began in 2020.

The lockdown had a devastating impact on the disabled community, with the pandemic exacerbating the barriers that already existed, and many disabled people dying.

But in a way, it was also a relief for disabled people. Finally, everyone was experiencing the limitations and obstacles that affect the disabled community every day.

I was inspired to respond to this time and – like a lot of people – I turned to writing. As a disabled actor, I never had the opportunity to play characters or share stories that were similar to my own experiences. I wanted a character I felt passionately about, a character where I didn't have to mask my sight loss, someone who was experiencing life like I do!

And that's what I've tried to do with *Byth Bythoedd Amen*. It's a play about many things – love, friendship, grief, societal ableism, the reality of life

cymdeithas, realiti bywyd fel person ifanc anabl. Ond yn y bôn, mae'n stori obeithiol am ffindio dy ffordd ac ail-ddarganfod yr awch i fyw.

Dwi dal methu credu bod y ddrama wedi cyrraedd y llwyfan – mae'n teimlo fel breuddwyd! Mae'r stori yn un personol ond mae'r ddrama yn gampwaith o gydweithio gan dîm hynod o dalentog ac ymroddgar. Mae wedi bod yn brofiad anhygoel i weld pob un ohonyn nhw'n perchnogi *Byth Bythoedd Amen* a rhoi cymaint o gariad ac ymdrech i mewn i greu byd Lottie.

Diolch i Theatr Cymru ac i dîm *Byth Bythoedd Amen* am fod yn barod i gymryd y naid yma gyda fi, ac diolch hefyd i'r holl deulu a ffrindiau sydd wedi cefnogi fi ar hyd y ffordd.

A diolch i chi am fod yma yn y gynulleidfa, yn rhan o'r siwrne. Mae'n meddwl y byd.

as a young disabled person. But fundamentally, it's a hopeful story about finding your way and rediscovering the desire to live.

I still can't believe the play has made it to the stage – it feels like a dream! The story is personal, but the play is a masterpiece of collaboration by an incredibly talented and dedicated team. It's been an amazing experience to watch each of them own *Byth Bythoedd Amen* and put so much love and effort into creating Lottie's world.

Thanks to Theatr Cymru and the *Byth Bythoedd Amen* team for being ready to take this leap with me, and also to all my family and friends who have supported me along the way.

And thank you to all of you in the audience, for being part of the journey. It really means the world.



# Gair gan y Cyfarwyddwr
# A Word from the Director
## Rhian Blythe

Yn ei hanfod, stori am daith person i ddygymod â cholled ydy hon. Taith beryglus, niweidiol a hunan ddinistriol, sy'n troi'n siwrnai o obaith, o gariad ac o ail-ddarganfod yr awch i fyw. Ac eto, mae hi'n llawer iawn mwy na hynny. Dyma ddrama o ogwydd person ifanc anabl, drama bwysig sy'n torri tir newydd ym myd y theatr Gymraeg. Mae'n corddi'r dyfroedd, yn gofyn cwestiynau anodd ac yn ein gorfodi ni i edrych yn y drych a chwestiynu ein rhagfarnau. Mae'n mynd â ni i eithafion tywyll ac yna'n parhau i'n gwthio ni lawr y lôn honno, yn bellach na sy'n gyfforddus.

Prin iawn mae rhywun yn dod ar draws sgript fel hon yn fy mhrofiad i. Mae wedi bod yn rhodd i'w chyfarwyddo. Mae'n gyforiog o haenau, dwi'n gweld pethau newydd ynddi o hyd. Mae'r cymeriadau yn rhai crwn, yn llawn cymlethdodau a ffaeleddau. Rydyn ni'n eu gweld ar eu gwaethaf ac eto rydy' ni'n eu deall, yn malio amdanynt ac yn gweld ein hunain yn eu gwedd.

At its core, this is a story about a person's journey through loss – a perilous, damaging, and self-destructive path that ultimately transforms into one of hope, love, and rediscovering the desire to live. But it's so much more than that. This is a play seen through the perspective of a disabled young person, it is a vital piece of theatre that pushes boundaries of Welsh language theatre. It stirs the waters, confronts uncomfortable truths, and forces us to examine our prejudices. It takes us to dark places, and then dares us to go even further, beyond what feels comfortable.

In my experience, it's rare to come across a script like this. It's been a privilege to direct, and every time I revisit it, I discover new depths. The characters are complex, flawed, and multi-dimensional. We see them at their lowest points, yet we understand them, empathise with them, and see parts of ourselves reflected in their struggles.

Mae'r iaith yn un ffrwydriad cyfoethog. Mae bratiaith dinesig cyhyrog Caerdydd, yn byw ochr yn ochr â iaith goeth sy'n ymylu ar fod yn farddonol, iaith sy'n deffro'r synhwyrau a'n tywys ni ar hyd strydoedd Caerdydd trwy berspectif Lottie.

Bydd cerddoriaeth ysbrydoledig Eädyth Crawford yn gefnlen i daith Lottie, yn ein cludo o fan i fan, yn consurio pobl o'r aer o'i chwmpas, ac yn ein tynnu o'r llon i'r lleddf.

Tra fod goleuo cywrain Garrin Clark yn rhoi mewnwelediad i ni o bryd i'w gilydd ar brofiad Lottie wrth gerdded trwy'r ddinas, yn ein gorfodi i graffu yn y tywyllwch ar brydiau a'n pledu â lliw a golau dro arall. Mae dyluniad chwareus Liv Jones hefyd, wrth gwrs yn allweddol i ddweud y stori hon. O'r wal galar yn y cefn, sy'n frith o enwau ac yn deyrnged i'r rhai nad ydynt gyda ni bellach, i'r palmentydd cyffyrddol sy'n rhan mor bwysig o fywyd dydd i ddydd pobl ddall. Rhywbeth y mae llawer ohonom yn cerdded drosto heb sylwi na meddwl ddwywaith.

Mawr yw fy niolch hefyd i Jess Williams am ei gwaith corfforol dyfeisgar ac i Marged Siôn am ei gwaith llais gwych. Bu Taylor Martin hefyd yn y sdafell efo ni fel ymghyngorydd drag, oedd yn brofiad difyr iawn, ac yn llawn hwyl.

The language is a vibrant tapestry. The urban slang of Cardiff intertwines with moments of language so beautifully poetic it almost feels otherworldly – a language that sharpens the senses and leads us through the streets of Cardiff from Lottie's unique perspective.

Eädyth Crawford's evocative music forms the heartbeat of Lottie's journey, guiding us seamlessly from place to place, conjuring characters out of the air, and carrying us from joy to sorrow in the blink of an eye.

Garrin Clark's intricate lighting offers us a window into Lottie's experience of navigating the city, at times plunging us into darkness, and at others, playing with light and colour to reflect the emotional landscape of the story. Liv Jones' imaginative set design is integral to this tale. The memorial wall at the back – graffitied with names, a tribute to those who are no longer with us – provides a powerful backdrop, while the tactile pavements, so central to the everyday life of blind people, serve as a poignant reminder of things we often overlook.

I'm deeply thankful to Jess Williams for her innovative physical work and to Marged Siôn for her outstanding voice work. We were also lucky to have Taylor Martin with us as a drag consultant, his input was both entertaining and enlightening.

Bydde dim o hyn yn bosib heb dîm cynhyrchu arbennig hefyd wrth gwrs. Roedd yr ymroddiad, y gefnogaeth gyson a'r parodrwydd i gyfrannu i bob sgwrs mor werthfawr i mi.

Ac wrth gwrs, Mared a Paul. Mae wedi bod yn gymaint o fraint rhannu'r profiad yma gyda dau mor agored, mor ddiffuant a gonest. Mae eu hegni, eu parodrwydd i chwarae a darganfod yn fy syfrdannu yn ddyddiol. Dwi wedi chwerthin o'i hochr hi ac wedi colli ambell ddeigryn hefyd.

Dwi'n gobeithio y bydd y gynulleidfa yn symud yn anghyfforddus yn eu seddi wrth wylio'r cynhyrchiad yma. Dwi isio i bobl ddychryn, i chwerthin, i ddysgu ac i drafod ymhell ar ôl i'r ddrama ddod i ben.

None of this would have been possible without the incredible production team, whose dedication, ongoing support, and willingness to engage in every conversation were invaluable to me.

And of course, Mared and Paul. It has been a true privilege to share this experience with two open, sincere, and honest artists. Their energy, their curiosity, and their willingness to explore and discover continues to amaze me. I've laughed alongside them and shed a few tears, too.

I hope the audience feels uncomfortable, perhaps even uneasy, while watching this production. I want them to be challenged – to laugh, to be moved, to reflect, and to continue discussing long after the final curtain falls.



# Cast

Lottie
**Mared Jarman**

Bennie a chymeriadau eraill | and other characters
**Paul Davies**

# Tîm Creadigol a Chynhyrchu
# Creative and Production Team

Awdur | Author **Mared Jarman**
Cyfarwyddwr | Director **Rhian Blythe**
Cynllunydd Set a Gwisgoedd | Set and Costume Designer **Livia Jones**
Cynllunydd Goleuo | Lighting Designer **Garrin Clarke**
Cyfansoddwr a Chynllunydd Sain | Composer and Sound Designer **Eädyth Crawford**
Cyfarwyddwr Llais | Voice Director **Marged Siôn**
Cyfarwyddwr Symud | Movement Director **Jess Williams**
Ymgynghorwyr Hygyrchedd | Access Consultants **Sara Beer, Bridie Doyle-Roberts + Jonny Cotsen**
Ymgynghorydd Drag | Drag Consultant **Taylor Martin**
Sain Disgrifiwr | Audio Describer **Eilir Gwyn**
Gweithiwr Cymorth Mared | Mared's Support Worker **Niamh Moulton**
Crëwr Capsiynnau | Captions Creator **Steffan Wilson-Jones**
Cynhyrchydd | Producer **Gavin Richards**
Pennaeth Cynhyrchu | Head of Production **Gareth Wyn Roberts**
Rheolwr Cynhyrchu | Production Manager **Caryl McQuilling-Edwards**
Rheolwr Llwyfan | Stage Manager **Carys-Haf Williams**
Dirprwy Reolwr Llwyfan | Deputy Stage Manager **Cerys John**
Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol a Cynorthwy-ydd Gwisgoedd ar daith
Assistant Stage Manager and Costume Assistant on tour **Lleucu Williams**
Cynorthwy-ydd Gwisgoedd | Costume Assistant **Molly Rees Howe**

Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol | Assistant Stage Manager **Emma Mace**
Saer Cynhyrchiad | Carpenter **Jack Jenkins**
Peiriannydd Goleuo 1 | Lighting Engineer 1 **Jeannette Baxter**
Peiriannydd Goleuo 2 | Lighting Engineer 2 **William Hughes**
Cynhyrchydd Sain | Sound Production **Dan Jones**
Gweithredydd Capsiynau | Captions Operator **Steffan Wilson-Jones**
Prif Paentiwr Golygfeydd | Head Scenic Painter **Kayleigh Smith**
Tîm Adeiladu | Construction team **Bea Massey, Katherine Towl**

---

## Diolchiadau


**Staff a ffrindiau Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**
**Royal Welsh College of Music and Drama staff and friends**




# Staff Theatr Cymru

## Tîm Rheoli / Management Team

**Steffan Donnelly**
Cyfarwyddwr Artistig a Chyd-Brif Weithredwr
Artistic Director and Joint Chief Executive

**Angharad Jones Leefe**
Cyfarwyddwr Gweithredol a Chyd-Brif Weithredwr
Executive Director and Joint Chief Executive

**Rhian Davies**
Cyfarwyddwr Cynhyrchu / Director of Producing

## Cyfranogi / Participation

**Sian Elin James**
Cydlynydd Cyfranogi / Participation Co-ordinator

## Cyllid a Gweinyddiaeth / Finance and Administration

**Nerys Evans**
Swyddog Gweithrediadau / Operations Officer

**Lisa Ronan**
Swyddog Cyllid / Finance Officer

## Cynhyrchu / Production

**Gareth Wyn Roberts**
Pennaeth Cynhyrchu / Head of Production

**Caryl McQuilling-Edwards**
Rheolwr Cynhyrchu Cwmni / Company Production Manager

## Cynhyrchwyr / Producers

**Fflur Thomas**
**Gavin Richards**
**Steffan Wilson-Jones**
Cynhyrchydd Cynorthwyol / Assistant Producer

## Datblygu Creadigol / Creative Development

**Rhian Blythe**
Cyfarwyddwr Cyswllt / Associate Director

## Marchnata a Chyfathrebu / Marketing and Communications

**Ceri Williams**
Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu
Head of Marketing and Communications

**Elen Jones**
Swyddog Marchnata a Chyfathrebu
Marketing and Communications Officer


## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr / Board of Trustees

**Yr Athro Jerry Hunter** Cadeirydd
**Dr Nia Edwards-Behi**
**Jacob Dafydd Ellis**
**Siôn Fôn**
**Elin Parisa Fouladi**
**Gwyn Jones**
**Fiona Phillips**
**Catherine Rees**
**Rhys Miles Thomas**
**Gwyn Williams**
**Lois Llywelyn Williams**
**Meilir Rhys Williams**

# Bywgraffiadau

# Biographies



## Mared Jarman

### Actor ac Awdur
### Actor and Author

Mae Mared Jarman yn actor ac awdur o Gymru sydd wedi ennill BAFTA. Mae Mared yn fenyw anabl falch gyda chyflwr llygaid dirywiol, clefyd Stargardt. Graddiodd gydag MA mewn Actio ar gyfer Llwyfan, Sgrin a Radio yn Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn 2020, gydag ysgoloriaeth gan Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru. Yn dilyn hyn aeth ymlaen i weithio fel actor ar y sgrin gan gynnwys *Amgueddfa* (S4C), ac yn y theatr *Hero of the People* (Theatr y Sherman) a *Perverts* (The Vaults Festival London).

Dechreuodd taith ysgrifennu Mared, fel cymaint, yn ystod y pandemig ar ôl derbyn grant datblygu gan Theatr Cymru i weithio ar ei drama *Byth Bythoedd, Amen*. Yna aeth ymlaen i ysgrifennu a serennu yn y comedi BBC TWO *How This Blind Girl.* Aeth Mared ymlaen i ennill y Wobr Torri Trwyddo

Mared Jarman is a BAFTA winning actor and writer from Wales. Mared is a proud disabled woman with a degenerative eye condition, Stargardt's disease. She graduated with an MA in Acting for Stage, Screen and Radio at the Royal Welsh College of Music and Drama in 2020, with a scholarship from The Prince of Wales Trust. Following this she went on to work as an actor both on screen including *Amgueddfa* (S4C), and in theatre *Hero of the People* (Sherman Theatre) and *Perverts* (The Vaults Festival London).

Mared's writing journey began, like so many, during the pandemic after receiving a development grant from Theatr Cymru to work on her upcoming play *Byth Bythoedd, Amen*. She then went on to write and star in BBC TWO comedy *How This Blind Girl.*

yng ngwobrau BAFTA CYMRU 2023 am *How This Blind Girl*, The Rising Star Award yng Ngwobrau RTS 2024 a'r Ffurf Fer Orau yng Ngŵyl y Cyfryngau Celtaidd 2024. Mae'r ail gomedi, *How This Blind Girl... Does a Walk of Shame* ar gael ar hyn o bryd ar BBC iPlayer ar ôl cael ei ryddhau ym mis Rhagfyr 2024.

Mae hunaniaeth Mared fel dynes ddall yn ysbrydoliaeth enfawr iddi pan ddaw at ei gwaith ysgrifennu. Mae hi'n benderfynol o greu cymeriadau sy'n ffres ac wedi'u tangynrychioli, fersiwn o anabledd nad ydym wedi'i weld o'r blaen. Mae ei phrofiadau bywyd yn tanio ei hadrodd straeon.

Ar hyn o bryd mae Mared yn aelod o Grŵp Mynediad Awduron y BBC 2023-25. Mae hi'n datblygu gwaith pellach gyda'r BBC yn ogystal â'i drama gyda Theatr Cymru. Mae hi wedi bod yn gweithio gyda'i chwaer Hanna Jarman ar y gyfres *Phantasmagoria* am y blynyddoedd diwethaf.

Mared went on to win the Breakthrough Award in the 2023 BAFTA CYMRU awards for *How This Blind Girl*, The Rising Star Award at The RTS Awards 2024 and Best Short Form at The Celtic Media Festival 2024. A second comedy, *How This Blind Girl... Does a Walk of Shame* is currently available on BBC iPlayer after being released in December 2024.

Mared's identity as a blind woman is a huge inspiration to her when it comes to her writing work. She's determined to create characters which are fresh and under-represented, a version of disability we haven't seen before. Her life experiences fuel her storytelling.

Mared is currently on the BBC Writers Access Group 2023-25. She's developing further work with the BBC in addition to her play with Theatr Cymru. She has been working with her sister Hanna Jarman on the series *Phantasmagoria* for the past few years.





# Paul Davies

## Actor

Mae Paul Davies yn actor, cyflwynydd ac ymgyrchydd o Gwm Rhondda gyda gyrfa fywiog sy'n ymestyn ar draws llwyfan, sgrin, radio, adloniant byw a modelu.

Dechreuodd Paul ei yrfa fel diddanwr cot goch yn Butlins, gan feithrin sgiliau amrywiol fel cyflwyno, DJio, pypedwaith a chelfyddydau syrcas. Fel perfformiwr hoyw ac anabl balch, Paul oedd y Mr Gay Wales cyntaf a derbyniodd y teitl anrhydeddus Mr Gay Universe. Fel newyddiadurwr LGBTQ+, bu Paul yn gweithio gyda PinkSixty News ar OutTV yng Nghanada, gan helpu i feithrin gwelededd yn y cyfryngau.

Mae ei gredydau teledu yn cynnwys cyflwyno *Heno* (S4C), ac ymddangosiadau yn *Y Frwydr: Stori Anabledd* (2023), *Redcoats* (ITV), *The Ranganation* (BBC), a *The Paul O'Grady Show* (Channel 4) a lot mwy.

Paul Davies is a Welsh actor, presenter, and advocate from the Rhondda Valleys with a dynamic career spanning stage, screen, radio, live entertainment, and modeling. Paul began his journey as a Butlins Redcoat, where he honed diverse skills such as presenting, DJing, puppetry, and circus arts.

A proud queer, disabled performer, Paul made history as the first-ever Mr. Gay Wales and later received the honorary title of Mr. Gay Universe. As an LGBTQ+ news anchor, Paul worked with PinkSixty News on Canada's OutTV, helping shape visibility in the media.

His TV credits include presenting *Heno* (S4C), and appearances in *Y Frwydr: Stori Anabledd* (2023), *Redcoats* (ITV), *The Ranganation* (BBC), and *The Paul O'Grady Show* (Channel 4) and more.

Ymhlith uchafbwyntiau llwyfan Paul, mae cyd-gyflwyno *Brainiac Live!*, *The Doctor Who Experience*, a *IPW Wrestling.*

Mae hefyd yn adfocad dros iechyd y perfedd ac iechyd meddwl fel gwesteiwr yn Ystâd Goodwood.

Paul's stage and concert highlights include co-hosting *Brainiac Live!*, *The Doctor Who Experience,* and *IPW Wrestling* to name just a few.

He also advocates for gut health and mental wellbeing as a retreat host at The Goodwood Estate.





# Rhian Blythe

## Cyfarwyddwr | Director

Rhian yw Cyfarwyddwr Cyswllt Theatr Cymru.

Bu'n aelod o gynllun Awenau – cynllun mentora Cyfarwyddwyr newydd gyda Theatr Cymru yn 2019 – ac ers hynny mae hi wedi cyfarwyddo *Enfys* gan Melangell Dolma, cyfres ddrama feicro ddigidol gan BBC Cymru Fyw a Theatr Cymru, *Rŵan/Nawr* ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol 2023 a *Ha/Ha* llynedd. Rhian oedd hefyd yn gyfrifol am gyfarwyddo *Swyn* gan Krystal S. Lowe i Theatr Cymru, Croendena gan Mared Llywelyn i Frân Wen, a *Helo?!* a *Noson yn y Glwys* i Academi Llais a Chelfyddydau Dramatig Cymru.

Rhian is Theatr Cymru's Associate Director.

She was a member of Awenau – a mentorship scheme for new directors from Theatr Cymru in 2019 – and since then, she's directed *Enfys* by Melangell Dolma, a digital micro-play for BBC Cymru Fyw and Theatr Cymru, *Rŵan/Nawr* at the National Eisteddfod 2023 and *Ha/Ha* last year. Rhian also directed *Swyn* by Krystal S. Lowe, also for Theatr Cymru, Croendena by Mared Llywelyn for Frân Wen, and *Helo?!* and *Noson yn y Glwys* for the Welsh Academy of Voice and Dramatic Arts.



# Liv Jones

## Cynllunydd Set a Gwisgoedd
## Set and Costume Designer

Mae Livia Jones yn Ddylunydd Cymraeg sy'n raddedig o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Livia Jones is a Welsh designer and graduate of the Royal Welsh College of Music and Drama.

Credydau theatr yn cynnwys | Theatre credits include: SCROOGE (Bro Taf); *Penelopiad* (WAVDA), *A Statement After an Arrest Under the Immorality Act* (RWCMD), *Rŵan/Nawr* (Theatr Cymru, Theatr Clwyd), *Ie Ie Ie*, *Brên. Calon. Fi*, *Ha/Ha* (Theatr Cymru).

Credydau teledu yn cynnwys | Television credits include: *Sanditon Cyfres 2 + 3* (ITV), *The Winter King* (ITVX), *The Killing Kind* (Paramount Plus), *The Famous Five* (BBC), *A Good Girl's Guide to Murder* (BBC), *The Crow Girl* (Paramount Plus), *Young Sherlock* (Amazon) .

Credydau fel artist annibynol | Credits as an independent artist: *Porth y Cwtsh* (Leeway Productions).



# Garrin Clarke

## Cynllunydd Goleuo
## Lighting Designer

Mae Garrin yn ddylunydd goleuo a rheolwr cynhyrchu anabl wedi'i leoli yng Nghymru. Mae'n frwdfrydig dros greu gwaith heriol a chyffroes. Yn aml mae ei waith yn ffocysu ar hygyrchedd integredig, ac mae wedi ymrwymo i wneud amgylchedd gwaith yn ddiogel, hygyrch a chynhwysol.

Yn ddiweddar, mae Garrin wedi bod yn gweithio ar brosiectau gwahanol, gan gynnwys gwaith gyda Taking Flight, Canolfan Mileniwm Cymru, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Theatr na nÓg/Consortiwm Cymraeg, Stammermouth, Theatr y Sherman, Hijinx, Theatr Iolo, Yr Eisteddfod Genedlaethol, Theatr Clwyd, The Other Room a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, lle cwblhaodd MA Rheoli Llwyfan a digwyddiadau yn 2017.

Garrin is a disabled lighting designer and production manager based in Wales. He is passionate about creating challenging and exciting work. Garrin's work often centres around integrated access, and he is committed to making a safe, accessible and inclusive work environment.

Some of Garrin's recent projects include work with Taking Flight, Wales Millenium Centre, National Youth Arts Wales, Theatr na nÓg/Consortiwm Cymraeg, Stammermouth, Sherman Theatre, Hjijinx, Theatr Iolo, Eisteddfod Genedlaethol, Theatr Clwyd, The Other Room and Royal Welsh College of Music and Drama where he trained in MA Stage and Event Management in 2017.


THEATR
CYMRU



# Eädyth Crawford

## Cyfansoddwr a Chynllunydd Sain / Composer and Sound Designer

Yn ystod ei gyrfa fel cynhyrchydd/cyfansoddwr, mae Eädyth Crawford wedi bod ar daith greadigol, gan adeiladu portffolio sylweddol sy'n cynnwys cyfansoddi ar gyfer cynyrchiadau nodedig fel *A Midsummer Night's Dream*, *The Merthyr Stigmatist* ac *Imrie*. Mae hi hefyd yn adnabyddus am ei gwaith cerddorol ar *The Welsh Dragon* gan Theatr Iolo a'i gwaith diweddaraf yn *Dal Gafael/ Hold On* gyda Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Yn ogystal â'i gwaith fel cyfansoddwr, mae Eädyth wedi bod yn gweithio ar ryddhau cerddoriaeth newydd gyda'r cynhyrchydd Gethin Pearson, gan gydweithio gyda'r gitarydd Rhodri Foxhall, sydd wedi dod yn aelod annatod o'u deuawd/triawd cerddoriaeth yr enaid electro-roc.

Through her career as producer/composer, Eädyth Crawford has been on a creative journey, building an impressive portfolio that includes composing for notable productions like Sherman Theatre's *A Midsummer Night's Dream*, *The Merthyr Stigmatist*, and *Imrie*. She is also known for her musical collaboration with Theatr Iolo's *The Welsh Dragon* and her most recent work in *Dal Gafael/Hold On* with National Youth Arts Wales. In addition to her role as a composer, Eädyth has been actively working on new music releases with producer Gethin Pearson, collaborating with guitarist Rhodri Foxhall, who has become an integral member of their electro-rock soul duo/trio.



# Marged Siôn

## Cyfarwyddwr Llais
## Voice Director

Prosiectau | Projects: *Atlantic Railton* (2021), *Serpentine Galleries* (Radio Ballads, 2021), *We Rise Barking & Dagenham* (2022), *Rory Pilgrim* RAFTS Live (2022), *Collective Rage* RWCMD (2022), Ebun Sodipo (2022), *Alter, Altar* Turner Prize Winner, Jasleen Kaur (2023).

Teledu | TV: *Mercury Awards* (2022), *Big Breakfast* (2022), *Joe Lycett Pride Show* (2022), *Graham Norton 2022, Prioritise Pleasure* (Fideo Cerddoriaeth Self Esteem Music Video), *I Do This All The Time* (Fideo Cerddoriaeth Self Esteem Music Video), *Jools Holland* (2021 & 2022), *Jools Holland Annual Hootananny* (2022), *James Corden* (2023).

Gwyliau | Festivals: Glastonbury (2019 & 2022), Montreux Jazz (2022), SXSW (2022), Gŵyl Llais (2018 & 2019), Greenman (2021), Latitude (2021 & 2022), Festival No6 | Gŵyl Rhif 6.

Radio: BBC1 Xtra *Jamz Supernova*, BBC *Woman's Hour*, Radio 1 *Live Lounge*, *Jo Whiley Sessions*, *Huw Stephens* (BBC Radio Cymru).

Stiwdio | Studio: *Radical Softness* (Marged, 2017), *You Are Not God* (Marged, 2018), *Prioritise Pleasure* (Self Esteem Vocals, 2021).



# Jess Williams

## Cyfarwyddwr Symud
## Movement Director

Hyfforddwyd Jess yn y London Contemporary Dance School a The Laban Centre.

Jess trained at the London Contemporary Dance School and The Laban Centre.

Mae credydau diweddaraf fel Cyfarwyddwr Symud yn cynnwys | Recent credits as a Movement Director include: *Nye* (National Theatre), *Richard III* (Shakespeare's Globe), *Rope* (Theatr Clwyd), *Lost and Found* (Aviva Studios Factory International), *The Boy With Two Hearts* (National Theatre a Chanolfan Mileniwm Cymru), *Mother Goose* (Theatr Clwyd), *A Little Piece of You* (Theatre Royal Drury Lane), *Around the World in 80 Days* (Theatre by the Lake), *Celebrated Virgins* (Theatr Clwyd), *Blood Harmony* a | and *Petrichor* (ThickSkin Theatre).

Credydau fel Cyfarwyddwr Cyswllt yn cynnwys | As an Associate Director credits include: *I Think We Are Alone*, *The Unreturning* (Frantic Assembly).

Credydau fel Cyfarwyddwr Symud Cyswllt yn cynnwys | As an Associate Movement Director credits include: T*he Curious Incident of the Dog in the Night Time*, *The Ocean at the End of the Lane* (National Theatre Productions), *Dracula: Mina's Reckoning* (National Theatre of Scotland), *Beginning* (National Theatre, Queens Theatre, Hornchurch), *Wonderland* (Nottingham Playhouse), *Praxis Makes Perfect* (National Theatre Wales).







## Taylor Martin

### Ymgynghorydd Drag
### Drag Consultant

Mae Taylor yn actor o Bort Talbot sydd bellach yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd ers graddio o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda BA mewn actio yn 2016. Ers graddio mae Taylor wedi gweithio'n gyson gyda theatrau yng Nghymru, mewn sawl cyfrwng gan gynnwys 14 taith gyda Theatr Clwyd. Ei hunan arall yw *Mel Teaser* – ganwyd yn 2019 – y frenhines gyda'r barf fwyaf sgleiniog yn y dref. Gan dalu gwrogaeth bob amser i'w heicon Cruella de Vil, mae Mel yn defnyddio Drag er budd hawliau LGBTQIA+ yn wleidyddol ac yn gymdeithasol wrth galon ei pherfformiadau.

Taylor is an actor from Port Talbot, living and working in Cardiff since graduating from University of Wales Trinity Saint Davids with a BA in acting in 2016. Since graduating he has worked consistently in theatre in Wales, in many mediums including 14 tours with Theatr Clwyd. His alter ego *Mel Teaser* – born in 2019 – is the queen with the 'glitteriest' beard in town. Always paying homage to her icon Cruella de Vil, Mel uses her Drag for the greater good with LGBTQIA+ rights both politically and socially at the heart of her performances.



# Sara Beer

## Ymgynghorydd Hygyrchedd
## Access Consultant

Mae Sara yn Gyfarwyddwr Newid ar gyfer Craidd, consortiwm o sefydliadau celfyddydol yng Nghymru sy'n gweithio tuag at wella mynediad a chynhwysiant ar gyfer ymarferwyr byddar, anabl a niwroamrywiol creadigol mewn theatr prif ffrwd.

Dechreuodd Sara ei gwaith ym maes celfyddydau anabledd gyda Chwmni Theatr Graeae dros 35 mlynedd yn ôl. Am 15 mlynedd bu Sara yn gweithio gyda Chelfyddydau Anabledd Cymru, yn cefnogi artistiaid anabl ledled Cymru, yn rhedeg prosiectau ac yn creu cyfleoedd arddangos. Bu Sara hefyd yn cydlynu a chyfarwyddo cynyrchiadau ar gyfer Ysgol Lwyfan Anarferol DAC. Fel actor, mae Sara wedi gweithio'n helaeth gyda Kaite O'Reilly, gan gynnwys ei sioe un fenyw, *Richard III redux*, wedi ei gyfarwyddo gan Phillip Zarrilli.
Yn fwy diweddar mae Sara wedi perfformio gyda National Theatre Wales yn *The Cost of Living*.

Sara is currently Director of Change for Craidd, a consortium of arts organisations in Wales working towards improving access and inclusion for creative deaf disabled and neurodivergent practitioners in mainstream theatre.

Sara began her work within disability arts with Graeae Theatre Company over 35 years ago. For 15 years Sara worked with Disability Arts Cymru, supporting disabled artists across Wales, running projects and creating showcasing opportunities. Sara also coordinated and directed productions for DAC's Unusual Stage School. As an actor Sara has worked extensively with Kaite O'Reilly, including her one woman show, *Richard III redux*, directed by Phillip Zarrilli. Sara has more recently performed with National Theatre Wales in*The Cost of Living*.



# Jonny Cotsen

## Ymgynghorydd Hygyrchedd
## Access Consultant

Hyfforddwyd Jonny Cotsen fel athro celf, ond gadawodd ei yrfa broffesiynol i ddatblygu ei hun fel artist perfformio ac ymgynghorydd creadigol dros gynhwysiant o fewn y celfyddydau. Mae Jonny yn eiriolwr brwd dros wella mynediad i'r Celfyddydau. Mwynha Jonny siarad cyhoeddus a bod ar drafodaethau panel ar ddarpariaeth hygyrchedd Celfyddydau. Perfformiodd Jonny gyda *Louder Is Not Always Clearer* a gafodd ei gynhyrchu, ei gyfarwyddo a'i gyd-ysgrifennu gan Mr a Mrs Clark. Teithiodd *Louder Is Not Always Clearer* yn helaeth ar draws y DU ac Ewrop am dros 4 blynedd yn ogystal â rhediad llwyddiannus yn Edinburgh Fringe 2019, a hynny ar ôl iddo gychwyn yn Chapter Arts (2017). Addasodd On Par Productions a Mr a Mrs Clark, *Louder Is Not Always Clearer* mewn i ffilm fer a gefnogwyd gan BBC Arts ar gyfer eu tymor Culture In Quarantine. Mae rhaglen ddogfen Jonny, *Born Deaf, Raised Hearing* sy'n rhan o'r gyfres *Our*

Jonny Cotsen is a qualified Art teacher but left his professional career to develop himself as a performance artist and creative consultant for inclusion in the arts. Jonny is a keen advocate for better access in the Arts. Jonny enjoys public speaking and enjoys being on panel discussions on access provision in the Arts. Jonny performed with *'Louder Is Not Always Clearer'* which was produced, directed and co-written by Mr and Mrs Clark. *'Louder Is Not Always Clearer'* had toured extensively across the UK and Europe for over 4 years as well as a successful run at Edinburgh Fringe in 2019 since its inception at Chapter Arts in 2017. On Par Productions and Mr and Mrs Clark, adapted *Louder Is Not Always Clearer* into a short film which was supported by BBC Arts for their Culture In Quarantine season. Jonny's documentary *'Born Deaf, Raised Hearing'* part of the 'Our Lives' series on the BBC is a short documentary on Jonny's relationship to his deafness. Jonny

*Lives* (BBC) yn rhaglen ddogfen fer am berthynas Jonny â'i fyddardod. Arweiniodd Jonny *Hear We Are* a archwiliodd bersbectif croestoriadol o bobl fyddar a thrwm eu clyw sy'n gweithio yn y sector creadigol yng Nghymru, neu sydd wedi eu gwahardd o'r sector greadigol. Trwy *Hear We Are*, datblygwyd Byddar Gyda'n Gilydd a daeth â thri diwrnod o ddigwyddiadau, gweithgaredd a pherfformiad dan arweiniad Pobl Fyddar a gynhaliwyd ym mis Mai 2023.

Mae Jonny yn Asiant dros Newid gyda Craidd (Ramps Cymru gynt), sydd wedi'i leoli yn Theatr y Sherman, un o'r 5 lleoliad partner ledled Cymru a bydd yn edrych ar anghenion a gofynion penodol pob sefydliad. Yn ogystal â bod yn ymddiriedolwr gyda Theatr Iolo, mae Jonny hefyd yn Gyd-gyfarwyddwr Artistig gyda Papertrail.

led *Hear We Are* that explored the intersectional perspective of Deaf and Hard of Hearing people working in, or excluded from the creative sector in Wales. Through *Hear We Are*, 'Deaf Together' was developed and it brought three days of events, activity and performance that was led by Deaf people that took place in May 2023.

Jonny is an Agent for Change with Craidd, formerly known as Ramps Cymru, is based at Sherman Theatre, one of the 5 partner venues across Wales and will look at each organisation's specific needs and requirements. As well as being a trustee with Theatre Iolo, Jonny is also a Co-Artistic Director with Papertrail.





# Bridie Doyle-Roberts

## Ymgynghorydd Hygyrchedd
## Access Consultant

Artist amlddisgyblaethol wedi'i lleoli ym Mhontypridd yw Bridie Doyle-Roberts. Mae ei gwaith yn cynnwys arweinyddiaeth creadigol a chreu cymunedau. Ar ôl hyfforddi mewn Dawns, sefydlodd Citrus Arts, elusen syrcas, dawns a chelfyddydau awyr agored, lle bu'n gweithredu fel cyd-gyfarwyddwr am 15 mlynedd.

Mae ei gwaith presennol yn ymwneud â gosodiadau ymdrochol gweledol a sain gyda celfi a cherddi dwyieithog. Mae'r gwaith yn gyffyrddadwy ac yn gwahodd pobl i brofi mewn ffordd synhwyraidd, gan ei wneud yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg, fel ei hunain. Mae Bridie yn aelod gweithgar o'i chymuned, yn Ymddiriedolwr ar gyfer sefydliad lles henoed ac yn hwylusydd ar gyfer stiwdio polstri creadigol a gofod cymunedol yn Hopkinstown. Mae Bridie yn Asiant dros Newid yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i gefnogi'r sector Theatr i ddod yn fwy cynhwysol a hygyrch i bobl byddar, anabl a niwroamrywiol.

Bridie Doyle-Roberts is a multi-discipline artist based in Pontypridd whose work involves creative leadership and community building. After training in dance she founded Citrus Arts, a circus, dance and outdoor arts charity where she acted as Co-Director for 15 years.

Her current work involves immersive visual and sound installations of furniture art and bilingual poetry. The work is tactile and invites people to experience in a sensory way, making it accessible for sight-impaired people, like herself. Bridie is an active member of her community, a Trustee for an old age welfare association and facilitator of a creative upholstery studio and community space in Hopkinstown. Bridie is an Agent for Change at The Royal Welsh College of Music and Drama to support the Theatre sector to become more inclusive and accessible to Deaf, disabled and neurodivergent people.

Mae **Craidd** yn gydweithrediad rhwng pump o sefydliadau yng Nghymru, sef **Theatr Clwyd**, **Theatr y Sherman**, **Celfyddydau Pontio**, **Theatr y Torch**, a **Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.** Ei chenhadaeth yw gwella cynrychiolaeth brif ffrwd, ar gyfer a gyda phobl Fyddar, anabl a niwroamrywiol ledled Cymru. Mae hefyd yn gobeithio creu newid cadarnhaol yn y sefydliadau partner cysylltiedig, yn ogystal ag o fewn y sector theatr ehangach.

Roedd cam cyntaf y cydweithredu'n cynnwys archwiliad o bob sefydliad, sgyrsiau sector, hyfforddiant helaeth, a diffinio map ffordd ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Diolch i'r artistiaid **Sara Beer**, **Bridie Doyle-Roberts** a **Jonny Cotsen** o fenter Craidd sydd wedi cefnogi *Byth Bythoedd Amen* fel ymgynghorwyr hygyrchedd.

**Craidd** is a collaboration between five Welsh organisations; **Theatr Clwyd**, **Sherman Theatre**, **Pontio Arts**, **The Torch Theatre**, and the **Royal Welsh College of Music & Drama**. Its mission is to improve mainstream representation, for and with Deaf, disabled and neurodivergent people across Wales. It also aims to drive positive change in the partner organisations involved as well as within the wider theatre sector.

The first stage of the collaboration included an audit of each organisation, sector conversations, extensive training, and defining a roadmap for the next 5 years.

Thanks to the artists **Sara Beer**, **Bridie Doyle-Roberts** and **Jonny Cotsen** from Craidd for supporting *Byth Bythoedd Amen* as accessibility consultants.



## Theatr Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg.

Mae Theatr Cymru (gynt yn Theatr Genedlaethol Cymru) yn creu profiadau theatrig beiddgar sy'n diddanu ac ysbrydoli pobl Cymru.

Rydym yn creu man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon. Rydym hefyd yn creu cyfleoedd sy'n fodd i feithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg ynghyd â chyfleoedd i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol creadigrwydd yn eu bywydau.

## Theatr Cymru is the Welsh-language national theatre.

Theatr Cymru create bold theatre experiences to entertain and inspire the people of Wales.

We create a place of connection for the well-known and the unexpected, for Welshness and the world, for the big conversations and the joyful moments. We also facilitate opportunities that are a means of nurturing and inspiring the next generation of Welsh theatre artists, together with opportunities for people in all parts of Wales to experience the transformative effect of creativity in their lives.





Sefydlwyd y cwmni ym mis Mawrth 2003, trwy nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. O'r cychwyn cyntaf roedd un peth yn glir – mai nod y cwmni fyddai teithio, a mynd â theatr Gymraeg ei hiaith i galon cymunedau ledled Cymru, gan ddathlu ein hunaniaeth a'n hiaith yn ei holl amrywiaeth.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r cwmni wedi cofleidio clasuron y theatr Gymraeg ac ysgrifennu newydd, ac wedi cyflwyno'r cyfan ar lwyfannau traddodiadol ac mewn lleoliadau annisgwyl. Yn ogystal â hyn mae'r cwmni'n rhedeg prosiectau creadigol, llesiant a cyfranogol ar draws y wlad. Mae'r cwmni bellach yn theatr deithiol uchel ei chlod sy'n rhoi Cymru a'i phobl ar y map, sy'n agored ac yn groesawgar i bawb. Gyda Steffan Donnelly yn arwain fel Cyfarwyddwr Artistig ers 2022, ochr yn ochr â'i Gyd-Brif Weithredwr Angharad Jones Leefe, ac enw newydd i'r cwmni, mae oes newydd yn gwawrio.

Mae Theatr Cymru yn perthyn i chi.

## Enillydd Gwobr UK Theatre 2024 am Ragoriaeth Mewn Teithio

## Enwebwyd fel Cynhyrchydd y Flwyddyn – Gwobrau'r Stage 2024

The company was founded in March 2003, with a grant from the Arts Council of Wales. From the very beginning, one thing was clear – that it would be a touring company, taking Welsh-language theatre into the heart of communities up and down the country. The company would celebrate our identities and our language in all its diversity.

Over the last two decades, the company has embraced the classics of Welsh-language theatre as well as new and experimental work, presenting in traditional theatres and in unexpected locations. The company also facilitates creative, wellbeing and participatory projects across the country. Theatr Cymru is now an acclaimed touring theatre, placing Wales and its people on the map, and welcoming to all. With Steffan Donnelly taking the reins as Artistic Director in 2022, alongside Joint Chief Executive Angharad Jones Leefe, and a new name for the company, a new era is dawning.

Theatr Cymru belongs to you.

## 2024 UK Theatre Award Winner for Excellence in Touring

## Nominated as Producer of the Year – The Stage Awards 2024




## Theatr i Gymru

Fel elusen gofrestredig, mae Theatr Genedlaethol Cymru yn ddibynnol ar nawdd a rhoddion gan ein cymunedau, ac ni fyddai'n bosib i ni barhau i ddiddanu ein cynulleidfaoedd heb gefnogaeth ariannol gan ystod eang o ffynonellau.

### Hoffech chi ein cefnogi?

I gyfrannu **£5**, tecstiwch **THEATRGEN 5** i **70085**. Cost y neges fydd £5 yn ogystal â phris un tecst arferol.

I gyfrannu **£10**, tecstiwch **THEATRGEN 10** i **70085**. Cost y neges fydd £10 yn ogystal â phris un tecst arferol.

Mae modd cyfrannu ar-lein hefyd ar ein gwefan **theatr.cymru**

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

## Theatre for Wales

As a registered charity, Theatr Genedlaethol Cymru depends on sponsorship and donations from our communities, and it wouldn't be possible for us to continue to entertain our audiences without financial support from a wide variety of sources.

### Would you like to support us?

To donate **£5**, text **THEATRGEN 5** to **70085**. Texts cost £5 plus one standard rate message.

To donate **£10**, text **THEATRGEN 10** to 70085. Texts cost £10 plus one standard rate message.

You can also donate online at **theatr.cymru**

Diolch yn fawr for your continued support.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rhif cofrestru cwmni / Company registration number: 4784488
Lluniau / Images: Mefus Photography

#BythBythoeddAmen

THEATR.CYMRU